

Rhyddhau rhwystr yn y cysylltle pelfiwrethrol drwy ddefnyddio balŵn chwyddadwy gyda gwifren dorri boeth

*Mae 'arweiniad
Techlechydd' NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon ynghylch pryd a sut y gellir defnyddio balŵn chwyddadwy gydag ynni gwifren dorri boeth yn y GIG i drin cleifion sydd â rhwystr yn y cysylltle pelfiwrethrol (PUJ). Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio rhwystr yn y cysylltle pelfiwrethrol na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi'r wybodaeth lawn a

chyngor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio ac mae peth pryder ynghylch y perygl o waedu. Os yw meddyg am ddefnyddio'r driniaeth hon ar gyfer rhwystr yn y cysylltle pelfiwrethrol, dylai sicrhau ei fod yn cymryd camau ychwanegol i egluro'r ansicrwydd ynglŷn â pha mor dda mae'n gweithio a'r perygl o waedu. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i gael y driniaeth. Dylid rhoi'r daflen hon a gwybodaeth ysgrifenedig arall i'r claf fel rhan o'r drafodaeth. Dylid hefyd roi trefniadau arbennig ar waith ar gyfer monitro'r hyn sy'n digwydd i'r claf ar ôl y driniaeth. Dim ond mewn ysbytai sy'n gallu cynnig ystod o driniaethau gan gynnwys llawdriniaeth twll clo i dynnu ac ail-lunio'r adran o'r cysylltle pelfiwrethrol sydd â'r rhwystr (pyeloplasti laparosgopig) y dylid gwneud y penderfyniad ynghylch pwy sy'n cael y driniaeth, a'r driniaeth ei hun.

Sylwadau eraill gan NICE

Ni ddefnyddir triniaeth balŵn yn aml oherwydd y defnyddir pyeloplasti laparosgopig yn amlach. Ond gall y driniaeth fod yn ddefnyddiol i reoli rhwystr sy'n ailddigwydd.

*Efallai nad hon fydd
yr unig driniaeth
bosibl ar gyfer
rhwystr yn y
cysylltle
pelfiwrethrol.
Dylai eich tîm gofal
iechyd siarad â chi
ynghylch
p'un a yw'n addas i
chi a pha opsiynau
triniaeth eraill sydd
ar gael.*

Rhyddhau rhwystr yn y cysylltle pelfiwrethrol drwy ddefnyddio balŵn chwyddadwy gyda gwifren dorri boeth

Yr enw meddygol ar gyfer y driniaeth hon yw 'triniaeth balŵn torri electroserio ar gyfer rhwystr yn y cysylltle pelfiwrethrol'. Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma – siaradwch â'ch llawfeddyg i gael disgrifiad llawn.

Mae wrin yn symud o'r arennau i'r bledren drwy diwb o'r enw'r wreter. Os oes rhwystr yn y llwybr rhwng yr aren a'r wreter (a elwir yn gysylltle pelfiwrethrol) am ei fod yn gul, ni all yr wrin ddraenio i ffwrdd yn iawn. Gall hyn achosi poen gwaelod y cefn a heintiau wrinol. Ymhlith triniaethau mae llawdriniaeth agored neu dwll clo i leihau neu dynnu'r rhwystr. Mae techneg llawfeddygol arall yn defnyddio offer (laser, dyfais sy'n dargludo gwres neu fflaim) a osodir drwy'r wreter.

Tra bo'r claf dan anesthetig cyffredinol, mae'r llawfeddyg yn gosod balŵn torri drwy'r wreter i mewn i'r cysylltle pelfiwrethrol, wedi'i lywio gan ddyfais ddelweddu pelydr-X. Caiff y balŵn ei chwyddo'n rhannol er mwyn ei osod yn ei safle a bydd y wifren boeth yn torri'r feinwe sy'n achosi'r rhwystr. Yna caiff y balŵn ei chwyddo'n llawn i helpu i atal y gwaedu. Caiff tiwb o'r enw stent ei osod i mewn i'r cysylltle pelfiwrethrol i'w gadw ar agor tra bydd yn gwella, a'i dynnu ar ôl sawl wythnos.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os yw eich meddyg wedi cynnig y driniaeth hon i chi, dylai ddweud wrthych fod NICE wedi penderfynu bod y manteision a'r risgiau yn ansicr. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cyflawni'r driniaeth, ond dylai eich meddyg egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl - yn enwedig y perygl o waedu a'r rhwystr yn dychwelyd - gyda chi. Dim ond ar ôl i chi gael y drafodaeth hon y dylid gofyn i chi p'un a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad. Mae NICE wedi penderfynu hefyd bod angen mwy o wybodaeth am y driniaeth hon. Efallai y bydd eich meddyg yn gofyn i chi a ellir defnyddio manylion am eich triniaeth i helpu i gasglu rhagor o wybodaeth am y driniaeth hon. Bydd eich meddyg yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis
cael y driniaeth
hon, cael triniaeth
wahanol, neu
beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Ceir disgrifiad bras isod o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar 8 astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mesurodd ddwy astudiaeth 'lwyddiant' y driniaeth (a ddiffiniwyd fel symptomau'r cleifion yn gwella a'r rhwystr yn cael ei glirio). Mewn astudiaeth o 40 o gleifion, teimlai 13 allan o 20 a gafodd y driniaeth â balŵn a 17 allan o 20 a gafodd driniaeth â laser fod y driniaeth wedi bod yn llwyddiannus pan edrychwyd ar eu cynnydd ar ôl 30 mis. Dangosodd astudiaeth arall o 64 o gleifion nad oedd gwahaniaeth arwyddocaol mewn cyfraddau llwyddiant rhwng y triniaethau, pan edrychwyd ar gynnydd y cleifion ar ôl 76 mis. Mewn astudiaeth arall o 149 o gleifion, a welwyd ar ôl 16 mis, teimlai 85% o'r cleifion a gafodd y driniaeth â balŵn fod eu hanghysur wedi gwella 50% neu fwy, o gymharu â 90% mewn 40 o gleifion a gafodd eu trin â gwres heb y balŵn. Bu'n rhaid i un claf allan o 17 a gafodd y driniaeth â balŵn mewn astudiaeth o 64 gael llawdriniaeth arall. Ni fu'n rhaid i unrhyw un o'r 18 o gleifion a gafodd driniaeth â gwres gael llawdriniaeth arall, ond bu'n rhaid i 5 allan o'r 29 a gafodd driniaeth â fflaim gael hynny.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai nodau'r driniaeth yw lleddfu poen byrdymor, clirio'r rhwystr, ac i'r rhwystr beidio â dychwelyd.

Risgiau a phroblemau posibl

Cafodd dau glaf allan o 27 a gafodd y driniaeth â balŵn mewn astudiaeth o 64 broblemau â gwaedu y bu angen eu trin (gan gynnwys

Gwybodaeth am arweiniad Techlechyd NICE 205

trallwysiad gwaed), ond ni fu angen trin unrhyw un o'r 37 o gleifion a gafodd y driniaeth â laser. Mewn astudiaeth o 76 o gleifion a gafodd y driniaeth â balŵn cafodd 5 broblemau â gwaedu y bu angen eu trin (gan gynnwys trallwysiad gwaed). Cafodd tri chlaf allan o 20 mewn astudiaeth arall waed yn eu hwrin 2-5 diwrnod ar ôl cael triniaeth â balŵn ond ni fu angen trin hyn. Mewn astudiaeth o 2 glaf, casglodd gwaed un ohonynt o amgylch yr aren oherwydd bod rhydweli annormal wedi cael ei thorri, y bu'n rhaid ei chlymu yn ystod llawdriniaeth agored. Rhwygodd rhydweli'r claf arall, a gafodd ei thrwsio. Torrodd gwifren y balŵn mewn 1 claf. Yn yr astudiaeth o 40 o gleifion, rhwygodd y balŵn mewn 1 claf.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cyngorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cyngorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cyngorwyr bod haint ymhlith y problemau posibl ynghyd â'r angen am drallwysiad gwaed.

Rhagor o wybodaeth am rwystyr yn y cysylltle pelfiwrethrol

Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi. I gael manylion holl ganllawiau NICE ar rwystyr yn y cysylltle pelfiwrethrol, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk/aboutguidance

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon am 'driniaeth balŵn torri electroserio ar gyfer rhwystyr cysylltle pelfiwrethrol'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael ar www.nice.org.uk/HTG205

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8094-9

N2087 1P Dec 09

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2009. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or

for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.